SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #19 SCHTh Gogledd Cymru – 05 Mai 2023**
**OPCC North Wales Newsletter #19 – 05 May 2023**

## ‘Ydych chi eisiau gwarchod pob merch a geneth rhag cael eu cam-drin?’

Mae llyfryn newydd, ‘*Ydych chi eisiau gwarchod pob merch a geneth rhag cael eu cam-drin*?’, wedi’i lansio er mwyn tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i ferched sy’n profi cam-drin a/neu drais. Mae’r llyfryn yn rhan o ymrwymiad Heddlu Gogledd Cymru i atal Trais yn erbyn Merched a Genethod (VAWG). Mae VAWG yn unrhyw weithred o drais ar sail rhywedd sy’n effeithio’n anghymesur ar ferched a genethod.

Dywedodd Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: “Rwyf eisiau pob dioddefwr wybod lle i gael cymorth ac mae’r llyfryn yma yn hynod o werthfawr i ddarganfod sut i gael cymorth, stopio’r drosedd a gwneud newidiadau.”

Mae'r llyfryn yn egluro meysydd cam-drin ar sail rhywedd a sut i gael cymorth. Roedd ei gyhoeddi yn cyd-daro ag ymgyrch genedlaethol Wythnos Ymwybyddiaeth Stelcian ar 24-28 Ebrill. **Darllenwch fwy yma.**




## ‘Do you want to protect all women and girls from abuse?’

A new booklet, titled ‘*Do you want to protect all women and girls from abuse?*’, has been launched to highlight the help and support that is available to women experiencing abuse and/or violence. The publication is part of North

Wales Police's commitment to preventing Violence against Women and Girls (VAWG). VAWG is any act of gender-based violence which disproportionately affects women and girls.

North Wales Police and Crime Commissioner Andy Dunbobbin said: "I want all victims to know where to turn for help and support, and this booklet is a hugely valuable way of finding out how to seek help, stop violence or abuse and make change happen."

The booklet explains the areas of gender-based abuse and how to get help and its publication coincided with the national Stalking Awareness Week campaign on 24-28th April. **Read more here.**

## CHTh yn gweld sut mae menter leol yn blaguro a blodeuo yn y Rhyl

Aeth Andy Dunbobbin i weld hyb lles Blossom and Bloom yng Nghanolfan y Rhosyn Gwyn yn y Rhyl ar 28 Ebrill. Roedd hyn er mwyn gweld y gwaith pwysig mae'r elusen yn ei wneud er mwyn cynorthwyo mamau a'u babanod yn y gymuned leol.

Roedd Blossom & Bloom yn un o enillwyr diweddar cronfa £120,000 arbennig er mwyn cynorthwyo cymunedau ledled Gogledd Cymru. Mae cronfa Eich Cymuned, Eich Dewis yn cynorthwyo prosiectau llawr gwlad ac mae'n derbyn cymorth gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned Gogledd Cymru (PACT) a Heddlu Gogledd Cymru.

Ers mis Hydref 2021, mae Blossom & Bloom wedi bod yn darparu gwasanaethau lles galw mewn a chymorth dyddiol. Gwnaiff y man ymroddedig newydd hwn yng Nghanolfan y Rhosyn Gwyn gynorthwyo gyda darparu cymorth a chymdeithas hygyrch dyddiol i famau a babanod mewn amgylchfyd diogel a chyfeillgar. **Darllenwch fwy yma**.



## PCC sees how local initiative is blossoming and blooming in Rhyl

Andy Dunbobbin visited Blossom & Bloom's new wellbeing hub in the White Rose Centre in Rhyl on April 28 to see the important work the charity is doing to support mums and their babies in the local community.

Blossom & Bloom was one of the recent winners of a special £120,000 fund to help communities across North Wales. The Your Community, Your Choice fund supports grass-roots projects and is supported by the North Wales Police and Crime Commissioner, North Wales Police and Community Trust (PACT) and North Wales Police.

Since October 2021 Blossom & Bloom have been providing wellbeing-related daily drop-in and support services and this new dedicated space in the White Rose Centre will help provide daily accessible support and socialisation for both mums and babies in a safe and friendly environment. **Read more here.**

## Y CHTh yn cefnogi lansio strategaeth lansio troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad

Ar 27 Ebrill, gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Andy Dunbobbin gynorthwyo lansiad Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 2023-2025. Mae hon yn strategaeth sydd wedi'i chreu ar y cyd gan bedwar heddlu Cymru a Llywodraeth Cymru, yng Nghynhadledd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad ar Faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar drosedd sy'n effeithio'r gymuned amaethyddol fel lladradau, ymosodiadau ar dda byw gan gŵn, llosgi bwriadol a byrgleriaethau. Mae'n amlinellu meysydd blaenoriaeth ar gyfer swyddogion plismona cefn gwlad am y 24 mis nesaf. Mae'r strategaeth yn rhoi pwyslais sylweddol ar gryfhau'r gwaith partneriaeth rhwng heddluoedd a sefydliadau eraill yn y frwydr yn erbyn troseddau cefn gwlad.

Rhoddodd y gynhadledd gyd-destun i'r strategaeth, trosglwyddwyd negeseuon allweddol ac edrychwyd ar yr amcanion cydweithredol a dargedir i heddluoedd, y llywodraeth ac undebau amaeth er mwyn cyflawni'r strategaeth.
**Darllenwch fwy yma.**




## PCC supports launch of wildlife & rural crime prevention strategy

On April 27 Andy Dunbobbin supported the launch of the Wales Wildlife & Rural Crime Strategy 2023-2025, a strategy jointly-produced by Wales' four police forces and Welsh Government, at the Wales Wildlife & Rural Crime Conference at the Royal Welsh Showground in Builth Wells.

The strategy focuses on crime affecting the agricultural community such as theft, livestock attacks by dogs, arson and burglary and outlines priority areas for rural policing officers for the next 24 months. The strategy pays a significant emphasis on strengthening the partnership working between police forces and other organisations in the fight against rural crime.

The conference provided context to the strategy, communicated key messages and explored the targeted collaborative objectives for police forces, the government and farming unions to deliver the strategy. **Read more here.**

---

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES


Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.



Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW



Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy